# Cwestiynau ac Atebion – Hysbysiadau am Dorri'r Rheoliadau Dŵr

Dŵr Cymru
Welsh Water

Mae'r ddogfen hon yn ateb cwestiynau cyffredin am hysbysiadau torri'r rheoliadau dŵr a phroses Dŵr Cymru mewn perthynas â Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 ('y Rheoliadau').

## Beth yw'r Rheoliadau?

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesuriadau gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydym yn ei gyflenwi ar gyfer ein cwsmeriaid. Rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau hyn ar ran Llywodraeth Cymru.

## Beth yw Hysbysiad Torri'r Rheoliadau?

Mae hysbysiad torri'r rheoliadau'n clustnodi achosion lle nad yw'r Rheoliadau wedi cael eu dilyn, yn amlinellu manylion y gwaith y mae angen ei gyflawni i ddatrys y broblem, a'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

## Pam ydw i'n derbyn yr Hysbysiad yma?

Fel cwsmer i ni, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich system blymio a'ch ffitiadau dŵr yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae dyletswydd arnom ni fel cyflenwr eich dŵr i orfodi'r Rheoliadau hyn, ac os ceir eich bod wedi mynd yn groes i'r Rheoliadau, rhaid i chi sicrhau bod y broblem yn cael ei thrwsio.

## Sut mae cael tystiolaeth fod cynnyrch neu ffitiad yn cydymffurfio?

Gallwch ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth a thaflenni data technegol perthnasol gan wneuthurwr neu gyflenwr y nwydd o dan sylw.



WaterSafe®
LOCAL APPROVED PLUMBERS

## Pwy gaiff gyflawni'r gwaith gofynnol?

Ein cyngor ni yw defnyddio Plymwyr cymeradwy WaterSafe bob tro. Cyfeiriadur rhad ac am ddim o blymwyr â gwybodaeth ardystiedig am y Rheoliadau ac sy'n cael archwiliadau cyson o'u gwaith gennym ni yw WaterSafe.

Mae hi'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ac mae'n cynnwys rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn eich ardal leol – **www.watersafe.org.uk**

## Sut mae cael tystiolaeth fod cynnyrch neu ffitiad yn cydymffurfio?

Gallwch ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth a thaflenni data technegol perthnasol gan wneuthurwr neu gyflenwr y nwydd.

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf i'n cywiro'r broblem sy'n torri'r Rheoliadau?

Byddwn ni'n gwneud popeth yn ein gallu i gydweithio'n agos â'n cwsmeriaid i ddatrys problemau a helpu i unioni pethau. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau'n ofyniad cyfreithiol, felly os nad yw'r broblem o dan sylw'n cael ei chywiro cyn pen y cyfnod a bennir, yna gallech gael eich erlyn a chael cosb ariannol.

I gael rhagor o fanylion am ein polisi gorfodi neu fanylion sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i ddatrys problemau, ewch i'n gwefan.

**www.dwrcymru.com/-/media/Files/My-Water/Water-Supply-Enforcement-Policy-v5.pdf**